# Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Rhagfyr 12fed 2023 yn Neuadd Mynach Yn bresennol oedd Eifion Davies (cadeirydd), Bethan Thomas, Eilir Rowlands, Iolo Evans, Gwenda Evans, Dewi Pritchard, Alwyn Jones, Gwenda Morris, Gwynedd Jones, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Rita Jones.

**Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Tachwedd a chafwyd yn gywir.**

**ii) Datgan Buddiant.**
Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

**iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.**

a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.
i) Tirlithriad ar ffordd Rhiwlas – cafwyd cadarnhad fod y gwaith o drwsio'r difrod wedi ei orffen a'r ffordd wedi cael ei hail agor.
ii) Sbwriel wedi cael ei adael ar ochrau'r ffyrdd ar ôl torri'r gwrychoedd – roedd trefniadau mewn lle i'r gweithlu fynd i'w glirio.
iii) Difrod i'r A494 ym Methel – cafwyd cadarnhad fod angen cynllun sylweddol i ddatrys y sefyllfa ac roedd y mater yn cael ei drafod ar hyn o bryd gan Swyddogion Llywodraeth Cymru.
iv) Cais am finiau halen ger Pant Ffynnon, Rhiwlas a Llawr y Cwm, Maerdy. Yn dilyn ymweliad gan eu swyddog priffyrdd roeddynt wedi ysgrifennu at y preswylwyr i'w cynghori na fyddant yn lleoli biniau newydd yno.
v) Arwydd 40mya pentref Frongoch wedi malu – roedd y gweithlu am osod arwydd newydd yno.

b) Partneriaeth Penllyn (cyfraniad tuag at y gost o dorri llwybrau troed**).**
Gan nad oedd y Clerc wedi derbyn manylion y contract gyda Chyngor Gwynedd cytunwyd i'w drafod yn ein cyfarfod nesaf.

c) Tendrau gwaith torri glaswellt y mynwentydd.
Trafodwyd y prisiau a dderbyniwyd a chytunwyd i rôi'r gwaith i S. W. Jones am y 3 mlynedd nesaf. Gan nad oedd y clerc wedi clywed yn ynglŷn â'r grant o Gronfa Fferm Wynt Coedwig Clocaenog trafodwyd y prisiau a dderbyniwyd ar gyfer y prosiect. Os byddai'r Cyngor yn derbyn y grant cytunwyd ar y cyflenwyr i'r nwyddau a'r contractwyr ar gyfer y gwaith arall. Cytunwyd fod angen torri'r coed yn Llanfor beth bynnag a phenderfynwyd rhoi'r gwaith i Tom Edwards.

ch) Fferm Wynt Gaerwen.
Roedd y cynghorwyr Eilir Rowlands a Alwyn Jones wedi mynychu'r cyfarfod anffurfiol i drafod creu Cronfa Buddsoddi Cymunedol. Nid oedd unrhyw gynlluniau penodol mewn lle ar hyn o bryd.

d) Cyfarfod i drafod newidiadau i'r gwasanaeth bws T3.
Cytunodd Gwenda Morris fynychu'r cyfarfod ar ran y Cyngor.

**iv) Gohebiaeth.**
Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cyngor Gwynedd.
i) Ymgynghoriad cyfathrebu presennol y Gwasanaethau Cymdeithasol.

b) Llywodraeth Cymru.
i) Iechyd Democrataidd a Digidol Cynghorau Cymuned a Thref.
ii) Ymgynghoriad Strategaeth Diogelwch Ffyrdd – gofynwyd i'r clerc ei anfon ymlaen i'r cynghorwyr ei gwblhau.



Arwyddwyd: ……………………………………………. Dyddiad: …………………………………..

c) Parc Cenedlaethol Eryri.
i) Ymgynghoriad Strategaeth Hamdden.

ch) Amrywiol.
i) Panel Annibynnol Cymru – Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Chrynodeb o Benderfyniadau 2024-25.
ii) Diweddariad Triathlon Y Bala.

**v) Ceisiadau Cynllunio.**

a) C23/0928/04/LL - Cais i osod tô ar ben iard casglu gwartheg. Bryn Derw, Glan Yr Afon.

Nid oedd y cynghorwyr yn ymwybodol o unrhyw wrthwynebiad lleol.

**vi) Materion Ariannol.**
a) Llywodraeth Cymru.
Swm priodol o dan adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 – terfyn gwariant adran 137 ar gyfer 2024-25.

b) Adolygu cyflog a chostau'r clerc.
Cytunwyd i'w gadw run fath ar gyfer 2024-25 gydag arian ar gael i dalu unrhyw oriau ychwanegol fydd y clerc yn gorfod hawlio.

c) Cyllideb a Praesept 2024/25.
i) Cytunwyd i gynyddu'r arian ar gyfer yswiriant, cynnal a cadw asedau, tal aelodaeth Un Llais Cymru a'r gost o dorri glaswellt yn y mynwentydd. Cytunwyd i leihau cyllideb offer swyddfa gan nad oedd angen gwariant sylweddol.
ii) Gan fod pryder fod angen ail wneud rhan o wal gynnal mynwent Llanfor a bod cais mewn llaw am loches bws newydd yn y pentref cytunwyd fod angen codi'r Praesept gan nad oedd sicrwydd fyddai grantiau ar gael. Cytunwyd i'w godi i £13,000 ar gyfer 2024-25, byddai hyn yn sicrhau fod arian ar gael ar gyfer unrhyw wariant hanfodol, i gefnogi prosiectau lleol ac fel bod dros 3 mis o wariant gros y cyngor tu cefn.

ch) Derbyniadau.
i) Cymdeithas Llanfor (cabinet difib).

d) Taliadau.
Cytunwyd i dalu'r canlynol:-
i) Cyflog a chostau'r clerc (Hyd-Rhag).
ii) TWE (Hyd-Rhag).
iii) Hannah Gwenllian Web Designs (gwefan).
iv) ICO (debyd uniongyrchol).
v) Pethe Penllyn (hysbyseb mynwentydd).
vi) Difb Store (cabinet difib Llanfor).
vii) Archwilio Cymru (archwiliad allannol).

dd) Cyfraniadau Ariannol.
i) Derbyniwyd ceisiadau gan Radio Ysbyty Cymru, Tenovus, Urdd Gobaith Cymru - Cronfa Cyfle i Bawb a Hosbis Tŷ'r Eos. Cytunwyd i ddilyn y drefn arferol a'u trafod yn ein cyfarfod ym mis Mawrth.


Arwyddwyd: …………………………………………. Dyddiad: …………………………………..

**vii) Materion lleol.**

a) Gofynnwyd i’r clerc basio’r cwynion canlynol ymlaen i’r adrannau perthnasol:-

i) Bagiau sbwriel wedi cael ei gadael yn y cilfannau ar yr A494, ger Braich Ddu a Merllyn Gwyn, Glanrafon.
ii) Dŵr yn dod drosodd i'r ffordd ger Tan y Graig, Llandderfel.
iii) Dŵr yn dod i’r A494 ger Ty’n Fedw, Bethel a Bryn Awelon, Llanfor.
iv) Fan wedi parcio ers peth amser yn un o’r cilfannau ar yr A494.
v) Brics yn disgyn i lawr o’r bont lein ger hen stesion tren Llandderfel.

# Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Chwefror 6ed am 7.30 y.h. yn Neuadd Sarnau.



Arwyddwyd: …………………………………………. Dyddiad: …………………………………..